


Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

Cam 3: BYW'N HIRACH, HENEIDDIO'N DDA

Cynllun Cyflawni Bwrdeistref Sirol Caerffili



www.CaerphillyOver50.co.uk

[f Caerphilly Over 50](#)

[@50plus_Agewell](#)

#sharesomethingsimple

#saynotoageism

#everydayheros

“Mae llawer y gall unigolion ei wneud i gadw’u hiechyd a’u lles cyffredinol, ond mae angen llawer mwy os ydym am sicrhau bod Cymru’n lle da i heneiddio ynddo. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, y sector masnachol, llywodraeth genedlaethol a lleol a llawer o rai eraill gydweithio, er enghraifft, i greu amgylcheddau sy’n ystyriol o bobl hŷn, cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth a sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael i atal unigedd ac arwahanrwydd. Mae angen ymagwedd gydgysylltiedig sy’n rhoi pwyslais ar ganlyniadau pendant iawn; canlyniadau sy’n adlewyrchu’r heriau mwyaf y mae pobl yn eu hwynebu os ydynt am heneiddio’n dda.”- Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn.

Cynnwys:

CRYNODEB	4
CYFLWYNIAD:	5
<u>Y Cyd-destun Cenedlaethol</u>	
Deddf Cydraddoldeb 2010	5
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	5
a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014	
Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru	5
Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru	8
Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru	9
<u>Y Cyd-destun Lleol</u>	
Y Ddemograffeg Leol	10
Bwrdd Gwasanaethau Lleol	11
Datganiad Dulyn ar gyfer Cymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn	11
Gweithredu Cadarnhaol 50+	12
BETH MAE POBL HŷN YN EI DDWEUD WRTHYM NI?	12
YR ANGEN AM NEWID DIWYLLIANNOL	15
SUT ALLWN NI FWRW YMLAEN Â HYN YN Y FWRDEISTREF?	16
Cymdeithasol	16
Amgylcheddol	17
Ariannol	17
Camau Gweithredu a Chanlyniadau	18
Partneriaid cyflawni	19
Cynllun Gweithredu	20

CRYNODEB

Mae'r cynllun cyflawni Gweithredu Cadarnhaol 50+ hwn wedi'i anelu at wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n nodi lle mae gan wasanaethau cyhoeddus lleol a'n partneriaid ran i'w chwarae wrth ddarparu gwybodaeth a chymorth yn ogystal â gwasanaethau a sut y gallwn hefyd helpu preswylwyr y fwrdeistref i helpu eu hunain.

Mae'r cynllun yn rhoi fframwaith cychwynnol ar gyfer gweithredu, a fydd yn datblygu dros amser i adlewyrchu'r cynnydd a'r sefyllfa gymdeithasol, wleidyddol ac ariannol wrth iddi newid dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n adlewyrchu Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru ac yn cynnwys amcanion Gweithredu Cadarnhaol 50+ Caerffili 2014 ac amcanion rhaglen Heneiddio'n Dda 2012. Bydd y cynllun cyflawni hwn yn ddogfen fyw a gaiff ei monitro bob chwarter a'i hadolygu a'i diweddarau yn ôl y gofyn.

Mae'n anochel bod gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus ar y cyd â disgwyliadau a dyheadau'r cyhoedd yn gwneud hon yn adeg heriol. Fodd bynnag, bydd gwasanaethau cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Caerffili'n gweithio tuag at fodloni gofynion lleol o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid a phobl hŷn lleol.

Yn yr hinsawdd o gyfyngiadau ar gyllid ac ar adnoddau y datblygwyd y cynllun cyflawni ynddi, gwneir y pethau canlynol yn y 2 flynedd gyntaf:

- Adnabod a rhannu arferion da sy'n hybu a hwyluso llesiant pobl hŷn yn y fwrdeistref
- Defnyddio amrywiaeth o fformatau cyfryngau ac ymgyrchoedd i hybu a chefnogi'r newidiadau mae eu hangen i wella llesiant pobl hŷn yn ein cymunedau:
 - Sicrhau bod mwy o bobl sydd â hawl i fudd-daliadau a grantiau yn manteisio arnynt
 - Codi ymwybyddiaeth o werth datblygu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn
 - Mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran
 - Codi ymwybyddiaeth o atal cwympiadau
 - Lleihau unigedd ac arwahanrwydd pobl 50 oed a hŷn
- Galluogi preswylwyr, lle bo modd, i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda
 - Trwy fynediad at wybodaeth briodol
 - Trwy gynorthwyo preswylwyr i adnabod eu problemau a datrysiadau eu hunain

CYFLWYNIAD

Y Cyd-destun Cenedlaethol:

Deddf Cydraddoldeb 2010: Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â naw nodwedd gwarchodedig, ynghyd â materion yn ymwneud â'r Gymraeg, Hawliau Dynol ac eraill. Mae gwahanol ddeddfau a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n ymdrin â 14 maes i gyd.

Oedran yw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010. Felly mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried anghenion pobl o bob oed wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ac wrth ddarparu nwyddau a chyfleusterau. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwarchod hawliau pobl ag anabledd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr un hawliau â pherson sydd heb anabledd. Mae mwy na 37% o'n preswylwyr yn 50 oed ac yn hŷn ac o'r rheiny dywedodd 29.6% bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu'n fawr gan broblem iechyd neu anabledd. Mae helpu'r preswylwyr hynny i heneiddio'n dda yn cefnogi'r rhwymedigaeth sydd arnom i gyflawni ein dyletswydd o dan y Ddeddf hon.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹ a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014²: Mae'n bwysig cofio bod y rhain yn effeithio ar ein holl bartneriaid ac yn arbennig ar bob un o'r 4 cyfadrn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili os ydym yn mabwysiadu ymagwedd cwrs bywyd at wasanaethau. Mae'r adrannau Llesiant a gwybodaeth yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswydd ar y Cyngor yn gyfan i sicrhau y caiff preswylwyr eu galluogi i helpu eu hunain i heneiddio'n dda. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu Cynllun Llesiant. Yn hwnnw bydd angen i ni, ymysg materion eraill, ystyried y 67% o gynnydd a ragwelir yn ein poblogaeth 75 oed a hŷn.

Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gam 3 o'r [Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru](#)³ ym mis Mai 2013. Mae hwn yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud ar draws Cymru yn y 10 mlynedd flaenorol ac yn ceisio sicrhau bod gan bobl hŷn yng Nghymru ymdeimlad cadarnhaol o les a'u bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, beth bynnag fo eu hoed.

Barn pobl hŷn yw prif ysgogydd y trydydd cam. Mae hyn wedi arwain at dair thema Llesiant i gael sylw rhwng 2013 a 2023 fel bod gan yr holl bobl hŷn yng Nghymru yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol mae arnynt eu hangen i ddelio â'r cyfleoedd a'r heriau maent yn eu hwynebu.

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

² <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=010103>

³ <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/?skip=1&lang=cy>

Updated 23.11.15:

Mae'r Strategaeth yn ymdrin â phobl 50 oed a hŷn, gan mai hwn yn aml yw'r oedran pan mae pobl yn fwy agored i newidiadau a fydd yn effeithio ar eu henoed, megis: colli swydd, problemau iechyd yn dechrau codi, neu efallai bod gofalu am aelodau hŷn o'r teulu'n peri i rywun feddwl am sut y bydd yn dod i ben pan fydd arno angen cymorth, yn ogystal â phryd i ymddeol. Nid yw byth yn rhy gynnar i ystyried materion o'r fath ac mae yn ystod y 50au yn adeg dda i ddechrau gweithredu, gan y gallai rhywun fod â 30, 40 neu 50 mlynedd arall o'i oes o'i flaen a dylai'r rhain fod o'r ansawdd gorau posibl o fewn ei amgylchiadau personol.

Nodau cyffredinol y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru:

- Amrywiaeth – ni wahaniaethir yn erbyn pobl hŷn oherwydd eu hoedran, ac nid ydynt yn profi gwahaniaethu lluosog ar sail rhyw, ethnigrwydd, anabledd, crefydd a chred, na chyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal ag oedran.
- Cael gafael ar wybodaeth – mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chynghor ar wasanaethau a chyfluoedd, ac nid ydynt o dan anfantais wrth wneud hynny.
- Mannau a rennir – mae manau cyhoeddus yn groesawgar, yn ddiogel ac yn hygyrch i bobl hŷn
- Byw yn y gymuned – gall pobl hŷn gyfranogi a chyfrannu yn eu cymunedau a chael gafael ar wasanaethau ac amwynderau.
- Tai - mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo annibyniaeth.
- Ynni – mae pobl hŷn yn byw mewn cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni a gallant fforddio gwresogi eu cartrefi ar y tymheredd sydd ei angen i ddiogelu eu hiechyd.


Mae'n bwysig nodi bod syniad Llesiant yn gysyniad sy'n datblygu ac ers i gam 3 o'r Strategaeth gael ei lansio mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd wedi mabwysiadu'r term hwn.


(note: Welsh versions of the following two diagrams are available in the Welsh document

<http://gov.wales/docs/desh/consultation/150907-spsf-1.0-core-guidance-cy.pdf> on pages 7 & 8)

Updated 23.11.15:

Figure 2 – The four interlocking aspects of well-being in Wales





Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru: Yn ogystal â'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru cyhoeddodd Llywodraeth Cymru set o [Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru](#)⁴ ym mis Gorffennaf 2014. Mae eu hawliau fel a ganlyn:

Mae gen i'r hawl i fod pwy ydw i

Nid yw pob unigolyn hŷn yr un fath. Mae gen i'r hawl i fod pwy ydw i. Rwy'n unigolyn unigryw ac mae gen i'r hawl i gael fy neall, fy ystyried a fy nghydnabod fel unigolyn. Mae gen i'r hawl i gael fy nhrin yn deg a heb wahaniaethu. Mae gen i'r hawl i ddefnyddio fy newis iaith i gyfathrebu.

Mae gen i'r hawl i gael fy ngwerthfawrogi

Gan fy mod yn berson dynol mae gen i'r hawl i gael fy ngwerthfawrogi. Mae fy mywyd yn bwysig i mi ac i'r rhai sy'n gofalu amdanaf ac mae gen i'r hawl i fyw bywyd sydd â gwerth, ystyr a phwrpas. Rwy'n cyfri. Mae gwerth i mi - pan rwy'n cyfrannu at gymdeithas a phan nad wyf bellach yn gwneud hynny.

Mae gen i ewyllys rhydd a'r hawl i wneud penderfyniadau am fy mywyd

Mae gen i'r hawl i wneud penderfyniadau a chael fy nghynorthwyo i wneud hynny os oes angen. Mae gen i'r hawl i arfer fy ewyllys rhydd a gwneud dewisiadau. Fy marn i yw'r pwysicaf pan wneir penderfyniadau amdanaf fi a fy mywyd. Mae gen i'r hawl i gael fy nghynorthwyo i fyw'n annibynnol.

Mae gen i'r hawl i benderfynu ble rwy'n byw, sut rwy'n byw a gyda phwy rwy'n byw

Mae gen i'r hawl i benderfynu ble rwy'n byw a dewis y person neu'r bobl i dreulio fy mywyd gyda nhw. Mae gen i'r hawl i fod yn fy nghartref fy hun a gyda'r gymuned yr wyf yn ei charu.

Mae gen i'r hawl i weithio, datblygu, cymryd rhan a chyfrannu

Dyw fy mywyd ddim yn dod i ben oherwydd fy mod wedi cyrraedd oed penodol. Mae gen i hawl i weithio. Mae gen i hawl i gymryd rhan lawn yn fy nghymuned fy hun. Mae gen i hawl i ffynnu a pharhau i ddysgu, datblygu a thyfu. Mae gen i hawl i gael cymorth fel y gallaf barhau i gyfrannu. Mae gen i hawl i archwilio pethau newydd.

Mae gen i hawl i ddiogelwch, sicrwydd a chyfiawnder

Mae gen i hawl i gael fy nghymryd o ddifrif pan mae arna i ofn. Mae gen i hawl i wybodaeth a chynghor sy'n mynd i'r afael â fy mhryderon a fy ansicrwydd. Os oes angen y gyfraith i fy niogelu, ni ddylwn gael fy nhrin yn wahanol oherwydd fy mod yn hŷn. Hefyd mae gen i'r hawl i gymryd risgiau os wyf yn dymuno.

⁴ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/140716oldercy.pdf>

Updated 23.11.15:

Gan fwyaf mae'r Hawliau hyn yn adlewyrchu Hawliau Dynol Ewropeaidd a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae datganiad Cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n nodi camau gweithredu lleol ac mae adroddiadau monitro blynyddol yn darparu archwiliad cyhoeddus o gydymffurfiaeth a chyflawniad. Serch hynny, mae o gymorth os cadwn y siarter hon o hawliau mewn cof wrth weithredu'r cynllun cyflawni hwn gan y bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn trin ein holl breswylwyr sy'n 50 oed a hŷn gyda'r urddas a'r parch maent yn eu haeddu ac mae ganddynt hawl i'w disgwyl.

Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru: Sefydlwyd hon yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2012 fel partneriaeth bum mlynedd rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol ac asiantaethau mawr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Caiff y rhaglen ei lletya a'i chadeirio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae [Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) yn cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru'n rhaglen bwysig sy'n cefnogi'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ac yn offeryn allweddol yn y gwaith o'i chyflawni. Nod cyffredinol y rhaglen yw sicrhau bod gwelliant yn llesiant pobl 50 oed a hŷn yng Nghymru. Bydd y rhaglen a'i phartneriaid hefyd yn cefnogi a hyrwyddo agwedd gadarnhaol at heneiddio, a'r buddion mae cymdeithas sy'n heneiddio'n dod â nhw, ac yn sicrhau bod gan bobl hŷn lais cryf sy'n cael ei glywed ac yn cael ymateb.

Mae 5 thema flaenoriaethol gan y rhaglen:

- Nod **Cymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn** yw diwallu anghenion pobl hŷn, a phobl o bob oed, ym mhob cymuned unigol trwy ymateb yn uniongyrchol i'w hanghenion. Bydd cymunedau o'r fath yn annog ac yn galluogi pobl hŷn i ymgysylltu â'u hamgylchoedd a pharhau i ymgysylltu'n gymdeithasol yn y cymunedau hynny, gan gynnal eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u llesiant.
- **Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia** sef cymuned sy'n dangos lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus o ddementia (er enghraifft, sefydliad lleol neu genedlaethol fel siop, banc neu gorfforaeth, neu bentref, tref neu ddinas).
- Bydd gwaith **Atal Cwypmudiadau** yn helpu pobl hŷn i gynnal eu hiechyd a'u llesiant, byw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain, a pharhau'n egniol yn eu cymunedau.
- **Cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, dysgu a sgiliau newydd** gan fod gan bobl hŷn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad nad yw'n cael ei werthfawrogi ac sy'n cael ei danbriso yn y gweithle ar hyn o bryd. Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran a chydabod gwerth pobl hŷn yng Nghymru yn bwysig gan fod pobl hŷn yn werth mwy na £1 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Y nod yw cynyddu gwerth cydnabyddedig pobl hŷn trwy ragor o gyfleoedd dysgu, cyflogaeth a gwirfoddoli.
- Nid materion ymylol yw **Unigedd ac Arwahanrwydd**; dangoswyd eu bod yn niweidio iechyd, maen nhw'n sail i eithrio cymdeithasol ac maen nhw'n broblem sylweddol a dybryd yng Nghymru sy'n croesi pob ffin dosbarth cymdeithasol, hil,

Updated 23.11.15:

hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws ariannol a daearyddiaeth. Efallai bod dileu unigedd ac arwahanrwydd yn afrealistig, ond trwy weithio ar bob lefel, unigol, sefydliadol a strategol, nid yw nodi ac ymdrin â'r achosion sylfaenol yn afrealistig.

Y Cyd-destun Lleol

Mae mwy na 37% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 50 oed a hŷn ac o'r rheiny mae 30% yn dweud bod ganddynt anableddau sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae eu helpu i heneiddio'n dda yn cefnogi'r ddyletswydd sydd arnom o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2014.

Y ddemograffeg leol

179,247 yw poblogaeth Bwrdeistref Sirol Caerffili (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2013) ac mae 66,006 o bobl yn 50 oed neu'n hŷn. Mae mwy o bobl ar draws Cymru a Lloegr yn byw'n hirach na 100 mlynedd - 7,090 yn 2002 a 12,320 yn 2012 (data canol tymor y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Hefyd bydd llawer o bobl yn treulio'r un hyd neu'n hirach wedi ymddeol ag oeddent mewn cyflogaeth.

Poblogaeth hŷn Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2013

50 oed a hŷn	66,006
60 oed a hŷn	42,774
65 oed a hŷn	31,831
75 oed a hŷn	13,447
85 oed a hŷn	3,448

(Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2013 y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011, mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer canol 2013 yn dangos y profil oedran ar gyfer pobl 50 oed a hŷn fel cyfanswm ac yn ôl rhyw.

Oed	Cyfanswm y boblogaeth	Dynion	Menywod
50-54	12,206	6,102	6,104
55-59	11,026	5,426	5,600
60-64	10,943	5,330	5,613
65-69	10,576	5,189	5,387
70-74	7,808	3,737	4,071
75-79	6,017	2,701	3,316
80-84	3,982	1,741	2,241
85-89	2,270	821	1,449
90+	1,178	278	900
Cyfanswm 50 oed a hŷn	66,006	31,325	34,681

(Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2013 y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Updated 23.11.15:

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cynhyrchu ei amcanestyniadau poblogaeth ei hun i fod yn sylfaen i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a gynhelir ar hyn o bryd. Mae senario a argymhellir (Senario E) wedi cael ei dderbyn gan yr awdurdod a dangosir y ffigurau amcanestynedig ar gyfer y bobl dros oedran ymddeol isod:

Amcanestyniadau pobl wedi ymddeol a hŷn
(mae wedi ymddeol yn golygu 60 oed a hŷn i fenywod a 65 oed a hŷn i ddynion)

2016	39,510
2021	42,740
2026	46,600
2031	50,620

(Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y bydd nifer y bobl hŷn na 75 oed yn cynyddu 60% erbyn 2031. Dyma'r oedran pan mae ar fwy o bobl (yn hanesyddol) angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol i'w cynorthwyo trwy flynyddoedd olaf eu hoes, ac mae'n darparu adnodd enfawr yn ogystal â her i gymunedau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

Bwrdd Gwasanaethau Lleol: Nododd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili⁵ ei gydweledigaeth a'i ddull o wella bywydau pobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili trwy'r Cynllun Integredig Sengl "Caerffili'n Cyflawni". Gan fod nifer gynyddol o'n preswylwyr yn 50 oed ac yn hŷn, yn ymarferol mae angen i'r Cynllun Integredig Sengl adlewyrchu'r ffaith nad yw'r preswylwyr hynny'n grŵp unffurf o bobl nad oes arnynt angen ond gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ond eu bod mewn gwirionedd yn defnyddio'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, o finiau i drafnidiaeth, ac o'r herwydd bod ganddynt yr hawl i gael eu hystyried yn y rhan fwyaf o'n cynlluniau strategaeth, polisi a datblygu gwasanaethau. Mae hyn yn arwain at yr angen i gefnogi ac integreiddio â grwpiau arweiniol thematig y Cynllun Integredig Sengl a'u ffrydiau gwaith.

Datganiad Dulyn 2013: Mae **Dinasoedd a Chymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn** yn rhaglen Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â rhwydwaith "Dinasoedd sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn" Sefydliad Iechyd y Byd. Ar draws Cymru, derbyniodd pob un o'r 22 awdurdod lleol gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yr her yn 2013 trwy ymrwymo i Ddatganiad Dulyn i weithio tuag at gymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn erbyn 2020. Gellir gweld manylion Datganiad Dulyn yn atodiad 1

⁵ <http://your.caerphilly.gov.uk/communityplanning/content/caerphilly-local-service-board>

Updated 23.11.15:

Nod cyffredinol Datganiad Dulyn:

Gwneud Cymru'n wlad o gymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn

Dyma'r canlyniadau mae Datganiad Dulyn eisiau eu cyflawni:

- Cydnabyddir pwysigrwydd cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn ar bob lefel ledled Cymru.
- Mae lleisiau pob cenhedlaeth yn cael eu clywed a'u cynnwys yn y gwaith o greu eu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn a'u datblygu'n barhaus.
- Mae llywodraeth leol a chenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn ac arferion pontio'r cenedlaethau.

Cynllun Gweithredu Cadarnhaol 50+ 2003-13: Rydym wedi bod yn cyflawni camau 1 a 2 o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn lleol trwy ein Cynllun Gweithredu Cadarnhaol 50+. Nod craidd y gwaith hwn fu gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf o iechyd, annibyniaeth a chyfranogiad i bobl sy'n 50 oed ac yn hŷn ac sy'n byw neu'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Dyma'r canlyniadau allweddol ar gyfer 2010 -15 yr ydym wedi bod yn gweithio i'w cyflawni:

- Mae pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau lleol a bod eu hanghenion, eu sgiliau a'u cyfraniad i gymunedau a gwasanaethau'n cael eu parchu a'u defnyddio;
- Mae'r holl breswylwyr, cymunedau a rhanddeiliaid 50 oed a hŷn yn cael gwybodaeth dda ac yn ymgysylltu'n dda; ac
- Mae pobl 50 oed a hŷn yn cael cyfleoedd i sicrhau'r incwm gwario mwyaf posibl.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf cafwyd amrywiaeth o fentrau a chynlluniau peilot llwyddiannus sydd wedi arwain at newidiadau mewn arferion a gwelliannau i ansawdd bywyd pobl sy'n 50 oed ac yn hŷn ac sy'n byw neu'n gweithio yn y fwrdeistref.

BETH MAE POBL HŷN YN EI DDWEUD WRTHYM NI?


Ers i'r Strategaeth genedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ddechrau datblygu yn 2001 rydym wedi bod yn siarad â phobl hŷn ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili ynghylch y cyfeiriad strategol lleol. Mae gennym rwydwaith o bobl yr ydym yn ymgynghori â nhw, sy'n tyfu o hyd. Mae hwn yn cynnwys Fforwm 50+ Bwrdeistref Sirol Caerffili; ein rhwydwaith gweithio'n gallach 50+ (sy'n cynnwys mwy na 300 o sefydliadau a phobl sy'n bobl hŷn neu sy'n gweithio gyda phobl hŷn ar draws y fwrdeistref a Chymru gyfan), panel safbwynt Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, pobl

Updated 23.11.15:

sy'n mynd i grwpiau pensiynwyr, clybiau cymdeithasol a gweithgareddau i bobl sydd wedi ymddeol, pobl sy'n dal i weithio; y rheiny sy'n ymgysylltu â'r cyngor ynghylch cynllunio a darparu ei holl wasanaethau; y rheiny sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus eraill fel ieuchyd, tai a sefydliadau gwirfoddol; y rheiny sy'n ymgysylltu â chynghorau cymuned a thref; pobl sy'n byw mewn cynlluniau ymddeol a gofal preswyl.

Rydym wedi bod yn cynnal, a byddwn yn parhau i gynnal, seminarau/gweithdai blynyddol i drafod ein hymagwedd at y Strategaeth genedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, rhaglen 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru' a beth yw'r problemau lleol mae pobl hŷn a gwasanaethau cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn eu hwynebu.

Fel y byddai rhywun yn disgwyl mae safbwyntiau pobl yn amrywio gan ddibynnu ar eu hoedran a'u hagwedd, eu hiechyd ar hyn o bryd a'u sefyllfa ariannol. Yn aml mae pobl yn eu 50au yn ddig iawn o gael eu cynnwys mewn strategaeth ar gyfer *pobl hŷn* ond, ar ôl iddynt ddeall ein bod eisiau cefnogi heneiddio'n iach ac ymddeoliad o ansawdd da, dyma'r hyn maent yn ei ddweud:



Updated 23.11.15:

Mae pobl sydd newydd ymddeol neu sydd wedi ymddeol ers sbel ac sy'n weddol heini ac egniol yn dweud wrthym ni:

Dwy ddim yn gwybod sut ces i'r amser i weithio

Mae digon yn digwydd, mae'n rhaid i chi wneud yr ymdrech a chymryd rhan

Mae fy nheulu'n disgwyl i mi helpu gyda gofal plant. Rwy'n hoffi gwneud ond mae 'na adegau pan rwy'n teimlo 'mod i'n gorfod gwneud, hyd yn oed os rwy wedi blino neu mae 'na ryw beth arall rwy eisiau ei wneud

Cymerodd amser i mi ymaddasu oherwydd roeddwn i bob amser yn rhoi'r gwaith yn gyntaf; nawr rwy'n rhoi fy hun yn gyntaf

Rydyn ni eisiau bod yn egniol a chwarae rhan bwysig yn ein cymdeithas o hyd

Rwy'n edrych ar bobl hen iawn ac yn poeni beth fydd yn digwydd i mi os na fydda i'n gallu aros yn annibynnol

Mae pobl sydd wedi ymddeol ers nifer o flynyddoedd a'r rheiny sy'n llai egniol yn dweud wrthym ni:

Rydyn ni eisiau gallu cael gafael ar wybodaeth yn haws

Hyd yn oed os oes rhywun wedi rhoi'r wybodaeth i chi o'r blaen, allwch chi ddim ei chofio neu ddod o hyd iddi pan rydych chi ei hangen

Yn aml rydyn ni'n teimlo ar yr ymylon neu nad yw pobl yn gwrando arnon ni.

Un man cyswllt i ddod o hyd i beth rwy ei angen

Mae llawer o wasanaethau a rhwydweithiau i gymryd rhan ynddyn nhw

Gweithwyr dibynadwy â phrisiau rhesymol; mae'n anodd gwybod pwy i ymddiried ynddo pan rydych ar eich pen eich hun

Rhywun i'm helpu i gwrdd â phobl eraill a chymryd rhan mewn gweithgaredd gwerth chweil

Yn aml rydyn ni'n teimlo'n unig ac arwahanedig

Hoffwn i gymryd rhan ond dwy ddim yn gwybod ble i ddechrau chwilio

Mae'r rhan fwyaf ohonom ni'n hapus gyda'n cartref a'r ardal lle rydyn ni'n byw

Dwy ddim ond yn mynd allan os ydw i'n gwybod bod 'na rywle i eistedd pan fyddaf i'n blino a bod 'na doiledau ar gael

Rwy'n dibynnu ar fysiau ac yn mynd yn rhwystredig pan maen nhw'n stopio am 5 ac mae 'na wasanaeth cyfyngedig neu ddim gwasanaeth o gwbl ar benwythnosau a gwyliau banc

Updated 23.11.15:

Fel y gwyddom ni i gyd, nid grŵp unffurf yw pobl hŷn ac mae angen amrywiaeth o ymatebion i gynorthwyo pobl ar wahanol adegau o'u bywydau. Mae angen i ni wrando ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud wrthym a dylem ganolbwyntio ar weithredu ar yr adborth maent yn ei roi ynghylch eu hanghenion. Yn benodol mae angen i ni wella'r gallu i gael gafael ar wybodaeth a chyingor fel y gall pobl gael gwybod pa help y gallant ei gael, o ble a sut, ac wrth wneud hynny, aros mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

YR ANGEN AM NEWID DIWYLLIANNOL

Os yw incwm yn broblem i bobl hŷn, yn aml nid oes llawer o le i symud gan ei bod yn annhebygol y byddant yn cael gwaith a chynyddu incwm yr aelwyd, ac mae hyn yn eu gwneud yn wahanol i grwpiau demograffig eraill. Amcangyfrifir bod 84,000 o bobl hŷn yng Nghymru (14% o'r rheiny sy'n 65 oed neu'n hŷn) yn byw mewn tldi¹. Yng Nghymru, mae Credyd Pensiwn gwerth £168 miliwn heb ei hawlio bob blwyddyn, ac mae oddeutu traean o bobl hŷn, sef tua 94,800 o bobl, sydd â hawl i hawlio, yn peidio â'i hawlio neu ei gael. Mae bron yn anochel y bydd hyn yn arwain at fwy o broblemau iechyd a llesiant i'r bobl hynny, gan arwain at gostau cynyddol i wasanaethau iechyd a'r sector cyhoeddus.

Mae nifer o resymau pam nad yw pobl yn hawlio'r cymorth mae ganddynt hawl iddo. Fodd bynnag, mae'n deg tybio mai'r prif ffactorau yw diffyg gwybodaeth ac agwedd ddiwylliannol pobl hŷn at "gardod" a hanes a rennir sydd wedi dysgu pobl hŷn i "ddod i ben".

Gall iselder ac arwahanrwydd cymdeithasol effeithio ar gynifer ag un o bob saith o bobl dros 65 oed ac mae corff cynyddol o dystiolaeth⁶ sy'n nodi pwysigrwydd yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar lesiant i bobl hŷn. Mae astudiaethau gwyddonol yn America (astudiaeth hirdymor o 2,000 o bobl 50 oed a hŷn) a phrosiect Cymdogaeth Sefydliad Joseph Rowntree yn y Deyrnas Unedig yn dangos y gall teimlo'n unig iawn dros y tymor hir fod yn waeth na gordewdra yn nhermau cynyddu risgiau iechyd a all arwain at farwolaeth cyn pryd.

Bydd byw mewn ffordd iach o adeg mor gynnar ag sy'n bosibl yn helpu i ymestyn disgwyliad oes. Mae angen i ni helpu pobl hŷn i ddeall nad yw byth yn rhy hwyr i ddechrau gan y gallwch deimlo buddion ffordd well o fyw yn eithaf cyflym ar unrhyw oed.

¹ <http://www.ageuk.org.uk/PageFiles/41168/Life%20on%20a%20low%20income%20-%20FINAL%20-%20E.pdf?dtrk=true>

⁶ Adolygiad Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth o'r dystiolaeth ymchwil, a gyhoeddwyd yn Research Briefing 39: preventing loneliness and social isolation: interventions and outcomes

Updated 23.11.15:

Gan gymryd y pethau hyn i ystyriaeth mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi newid diwylliannol sy'n annog preswylwyr Bwrdeistref Sirol Caerffili, gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid i helpu pobl i helpu eu hunain wrth baratoi at adeg ddiweddarach mewn bywyd. Bydd newid o'r math hwn yn cynorthwyo pobl i aros mor iach ag y gallant, gan eu galluogi i fod â'r ansawdd bywyd gorau o fewn eu hamgylchiadau personol, ni waeth pa mor hir maent yn byw.

Mae angen hefyd i ni ddatblygu diwylliant ledled y fwrdeistref sirol sy'n annog pawb i beidio ag ystyried heneiddio'n broblem neu'n faich ond i sylweddoli mai pobl 50 oed a hŷn yw marchnad prynwyr fwyaf ein hoes, eu bod yn rhan bwysig o economïau lleol a chenedlaethol ac yn adnodd enfawr sy'n rhoi llawer iawn o amser i wirfoddoli a gofalu am oedolion a phlant. Er mwyn cyflawni hyn mae angen hefyd i ni gefnogi a hyfforddi staff y gwasanaethau cyhoeddus a'n partneriaid i ddeall yn llawn yr effaith mae rhagfarn uniongyrchol, anuniongyrchol ac isymwybodol ar sail oedran yn ei chael.

SUT ALLWN NI FWRW YMLAEN Â HYN YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI?

Wrth i raglen Heneiddio'n Dda Cymru gael ei lansio mae gennym gyfle i adolygu ein cyfeiriad a manteisio ar raglen genedlaethol i helpu i ysgogi mentrau lleol. Gallwn hefyd ddefnyddio rhwydweithiau cenedlaethol Heneiddio'n Dda i chwilio am syniadau da a manteisio ar ffyrddau cyllido trwy bartneriaethau ar draws Cymru ac Ewrop. Mae hefyd yn bwysig nodi, os byddwn yn mabwysiadu ymagwedd cwrs bywyd at heneiddio'n dda byddwn yn creu cymunedau cadarnhaol a chefnogol, nid yn unig i bobl hŷn, ond hefyd i blant a phobl ifanc, teuluoedd ifanc, gofalcwyr ac ati.

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn cysylltu â'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaethau a chynlluniau ehangach fel y'u hysgrifennir gan yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (a fydd yn troi'n Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus cyn bo hir) a'n partneriaid ehangach.

Yn benodol mae angen i ni ystyried ac ymateb i'r themâu allweddol canlynol sy'n cael effaith sylweddol ar lesiant pobl hŷn.

Cymdeithasol:

Mae pawb eisiau teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu, ni waeth beth fo ei oed. Fodd bynnag, trist yw dweud bod rhagfarn ar sail oedran yn broblem wirioneddol i bobl 50 oed a hŷn. Mae unigedd ac arwahanrwydd hefyd yn ffactor mawr i lawer o bobl hŷn a bydd ar rai angen cymorth ychwanegol, ar ôl digwyddiadau sy'n newid eu bywydau, i ailgysylltu â'u cymunedau a meithrin ymdeimlad o'u hunanwerth unigol. Felly mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd i alluogi pobl hŷn i beidio â theimlo'n 'anweladwy' mwyach a sicrhau y teimlant fod ganddynt gyfraniad i'w wneud i'w cymuned a'r gymdeithas ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn gallu rhedeg eu bywydau eu hunain ac ychydig iawn o gysylltiad maent yn ei gael gyda gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, os oes ar bobl hŷn a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt angen cymorth ychwanegol, mae darparu'r wybodaeth iawn ar yr adeg iawn yn hollbwysig, gan "nad yw pobl yn gwybod beth nad ydyn nhw'n ei wybod". Mae angen i ni ystyried sut y gallwn wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwybodaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a chreadigol, er mwyn hwyluso heneiddio'n iach a mynd i'r afael â rhagfarn ar sail oedran.

Amgylcheddol:

Mae ar bobl hŷn angen tai addas gyda mynediad i'w cymunedau a chysylltiadau trafnidiaeth. Mae pawb eisiau teimlo y gall fynd o gwmpas y tu allan i'w gartref ar unrhyw adeg mae eisiau, boed gyda chymorth gofalwr neu gydymaith neu ar ei ben ei hun. Mae amgylchoedd a thrafnidiaeth diogel yn bwysig i bobl hŷn. Iddyn nhw mae cyfleusterau fel goleuadau da, seddi, toiledau a lleoedd i fynd iddynt gan gynnwys siopau, neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden, dysgu ac iechyd i gyd yn chwarae rhan yn eu llesiant. Gellir dweud yr un peth am bobl o bob oed, yn enwedig plant a phobl â rhai cyflyrau meddygol penodol, anableddau neu anawsterau wrth symud.

Yn aml gall diffyg gwybodaeth neu anawsterau wrth ddefnyddio neu gyrraedd cyfleusterau a lleoliadau rwystro rhywun rhag mynd allan. Gall hyn yn ei dro arwain at deimladau o arwahanrwydd, a all gael effaith negyddol ar ei iechyd. Mae angen i ni ystyried sut y gallwn helpu pobl i gael gwybod a chynllunio pethau fel sut i fynd o A i B, llwybrau ac amseriadau trafnidiaeth, parcio, problemau mynediad, seddi, mynediad i doiledau a lluniaeth.

Mae angen hefyd i ni ystyried sut yr ydym yn gwarchod y bobl fwyaf agored i niwed. Mae yna broblem barhaus lle mae pobl agored i niwed yn cael eu cam-drin a'u 'sgamio' yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Mae angen i ni ystyried sut y gallwn rymuso preswylwyr i amddiffyn eu hunain a gofalu am y bobl o'u cwmpas ac, os oes angen, teimlo y gallant gael help a chefnogaeth.

Ariannol:

Mae cael incwm digonol yn bwysig i ni i gyd ac mae cymaint yn dibynnu ar deimlo bod gennym reolaeth dros ein materion ariannol. Mae gan y rhan fwyaf o bobl sydd wedi ymddeol incwm sefydlog trwy bensiwn, er bod rhai yn dewis parhau i weithio neu'n cael bod angen iddynt weithio i ychwanegu at incwm o bensiwn y wladwriaeth a/neu bensiwn galwedigaethol neu gynilion.

Er bod materion ariannol pobl sy'n 50 oed ac yn hŷn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, gall gwasanaethau cyhoeddus gynorthwyo ac annog pobl i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad a rheoli eu hincwm ar ôl iddynt ymddeol. Gallwn ddarparu

Updated 23.11.15:

gwybodaeth a'u cyfeirio at gymorth priodol megis: tai fforddiadwy yn y fwrdeistref sirol, effeithlonrwydd ynni, cymorth gyda chynhwysiant digidol, rheoli dyledion, sgiliau ariannol a llythrennedd ac yn bwysig iawn, eu hannog i hawlio'r hyn mae ganddynt hawl iddo.

I'r bobl hynny sy'n rhy ifanc i ymddeol neu nad ydynt yn barod i ymddeol, gall partneriaid gynnig neu gyfeirio at gyfleoedd i ailhyfforddi, mynediad i gyflogaeth, cynnal cyflogaeth a gwybodaeth a chymorth gyda gweithio hyblyg.

Camau gweithredu a chanlyniadau

Yn yr hinsawdd o gyfyngiadau ar gyllid ac ar adnoddau y datblygwyd y cynllun cyflawni ynddi, gwneir y pethau canlynol yn y 2 flynedd gyntaf:

- Adnabod a rhannu arferion da sy'n hybu a hwyluso llesiant pobl hŷn yn y fwrdeistref
- Defnyddio amrywiaeth o fformatau cyfryngau ac ymgyrchoedd i hybu a chefnogi'r newidiadau mae eu hangen i wella llesiant pobl hŷn yn ein cymunedau:
 - Sicrhau bod mwy o bobl sydd â hawl i fudd-daliadau a grantiau yn manteisio arnynt
 - Codi ymwybyddiaeth o werth datblygu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn
 - Mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran
 - Codi ymwybyddiaeth o atal cwympiadau
 - Lleihau unigedd ac arwahanrwydd pobl 50 oed a hŷn
- Galluogi preswylwyr, lle bo modd, i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda
 - Trwy fynediad at wybodaeth briodol
 - Trwy gynorthwyo preswylwyr i adnabod eu problemau a datrysiadau eu hunain

Mae creu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn yn galluogi canlyniadau clir a phendant a fydd yn dystiolaeth o'n gwaith yn lleol i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

Mae'r cynllun cyflawni Gweithredu Cadarnhaol 50+ hwn wedi'i anelu at wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r camau gweithredu'n nodi lle mae gan wasanaethau cyhoeddus lleol a'n partneriaid ran i'w chwarae wrth ddarparu gwybodaeth a chymorth yn ogystal â gwasanaethau a sut y gallwn hefyd helpu preswylwyr y fwrdeistref i helpu eu hunain.

Mae'r cynllun yn rhoi fframwaith cychwynnol ar gyfer gweithredu, a fydd yn datblygu dros amser i adlewyrchu'r cynnydd a'r sefyllfa gymdeithasol, wleidyddol ac ariannol wrth iddi newid dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n adlewyrchu Hawliau Pobl Hŷn ac yn

Updated 23.11.15:

cynnwys ein hamcanion Gweithredu Cadarnhaol 50+ cyfredol ac amcanion rhaglen Heneiddio'n Dda. Bydd y cynllun cyflawni hwn yn ddogfen fyw a gaiff ei monitro bob chwarter a'i hadolygu a'i diweddarau yn ôl y gofyn.

Mae'n anochel bod gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus ar y cyd â disgwyliadau a dyheadau cynyddol gan y cyhoedd yn gwneud hon yn adeg heriol. Fodd bynnag, bydd gwasanaethau cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Caerffili'n gweithio tuag at fodloni gofynion lleol o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein partneriaethau hirsefydlog ac effeithiol.

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid a phobl hŷn lleol, gyda chyfraniadau gan y sector preifat.

Y partneriaid cychwynnol sy'n allweddol i'r gwaith cyflawni:

Rhanddeiliaid allweddol Gweithredu Cadarnhaol 50+

Age Concern Gwent

Age Cymru

Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- Cyfathrebu (Corfforaethol a Chyfadrannau)
- Cymunedau yn Gyntaf
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Cysylltu Ysgolion a Fforymau Cymunedol ac Ieuenctid
- Tîm y Dreth Gyngor a Budd-daliadau
- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Amgylchedd
- Diogelu'r Cyhoedd
- Her Iechyd Caerffili
- Tai gan gynnwys partneriaid tai a thai i bobl hŷn
- Cynllunio a Datblygu
- Gwasanaethau Adfywio i'r Cyngor
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cefnogi Pobl
- Rheoli Canol Trefi

Cyfathrebu – gwahanol bartneriaid

Cymunedau ffydd

Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth

Gofal a Thrwsio Caerffili

GAVO

Tîm plismona cymunedol Heddlu Gwent

Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith

Cynllun Integredig Sengl: Arweinwyr a grwpiau cyflawni

Updated 23.11.15:

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i fwriadu i ganfod meysydd gwaith a rhoi gwybodaeth i randdeiliaid gan eu galluogi i gefnogi / gysylltu â phrosiectau

Cam gweithredu: canfod a rhannu arferion da cyfredol sy'n hybu a hwyluso llesiant pobl hŷn		
<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Canfod y gweithgarwch cyfredol ar draws y Cyngor ac yn y gymuned ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i bartneriaid ar y cynllun cyflawni trwy - Gynnal Gweithdy gyda 'gweithwyr proffesiynol' i ymgysylltu ac ymgynghori ar y cynllun cyflawni - Datblygu aelodaeth rhwydwaith thema rhaglen Heneiddio'n Dda Arweinydd: Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ 01443 864277 spragm@caerphilly.gov.uk	Ebrill/Mai 15	Cwblhawyd y gweithdy ar 14 Mai. Y gwaith o fapio'r gwasanaethau cyfredol wedi dechrau ac amrywiaeth o syniadau ar gyfer mentrau Heneiddio'n Dda wedi'u datblygu a rhwydwaith cychwynnol wedi'i sefydlu
Adolygu adroddiad ac offeryn mapio SAC ar annibyniaeth pobl hŷn Arweinydd: Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ 01443 864277 spragm@caerphilly.gov.uk	Awst 15	Nid yw adroddiad SAC wedi cael ei gyhoeddi eto ond aethpwyd i ddigwyddiad arferion gorau ac yn cymryd rhan mewn 'Treial Coffi'

Cam gweithredu: canfod a rhannu arferion da cyfredol sy'n hybu a hwyluso llesiant pobl hŷn		
Beth a chan bwy: gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Canfod a rhannu mentrau effeithiol i gynorthwyo â datblygu cymunedau sy'n ystyriol o bobl â dementia yng Nghaerffili Gweithdy ar ddatblygu cymunedau sy'n ystyriol o bobl â dementia Prosiect Cymunedau yn Gyntaf Rhymni / RVS a CHAT / Tîm Materion Dementia / RemPods / Llyfrgelloedd / Colin Capel Cymunedau yn Gyntaf Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+	Hydref 14	Cynhaliwyd y gweithdy hwn gyda'n 6 RemPod yn cael eu harddangos a'n llyfrau lluniau i'w rhannu. Gwnaethpwyd gwahanol gysylltiadau ac yn eu sgil cydweithiodd amrywiaeth o fentrau gan gynnwys y Tŷ Weindio'n gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer's i ddatblygu cyfrwng ystyriol o bobl â dementia. Mae o leiaf un cartref yn y sector annibynnol wedi prynu ac yn awr yn defnyddio nifer o RemPods o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.
Gwella'r gallu i gael gwybodaeth i alluogi preswylwyr, lle bo modd, i helpu eu hunain, eu perthnasau a'u ffrindiau a'u cymdogion i Heneiddio'n Dda Datblygu proffiliau manwl cartrefi preswyl ar y "Canllaw Gofal Da – Meddwl amdanaf i" Gareth Jones – Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cymdeithasol Viv Daye Comisiynu, Gwasanaethau Cymdeithasol	Mawrth 15	Mae adolygiadau o gartrefi yng Nghaerffili'n cael eu postio ac mae'r adborth cychwynnol ar yr adnodd hwn yn gadarnhaol

Cam gweithredu: canfod a rhannu arferion da cyfredol sy'n hybu a hwyluso llesiant pobl hŷn

<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Datblygu rhaglen Dementia Matters: Datblygu / cyflwyno amrywiaeth o hyfforddiant ar ddementia i ddiwallu'r amrywiaeth o anghenion cymunedol e.e.: • Ffrindiau Dementia • Hyrwyddwyr ym maes dementia • Ymdrin â sefyllfaoedd anodd Phil Diamond ar gyfer grŵp Dementia matters Datblygu'r gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol Cymdeithas Alzheimer's Fforwm 50+ Bwrdeistref Sirol Caerffili Tîm Cymunedau yn Gyntaf Cwm Rhymni Uchaf	Trwy gydol 2015	Mae oddeutu 100 o staff y Cyngor / staff cartrefi gofal / aelodau o'r Fforwm / gwirfoddolwyr o Gymunedau yn Gyntaf ac amgueddfa'r Tŷ Weindio wedi cwblhau hyfforddiant ac wedi cofrestru i fod yn Ffrindiau Dementia Mae modiwlau hyfforddiant Dementia Matters yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd gan amrywiaeth o staff gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor gan arwain at welliannau mewn cartrefi gofal a gofal i bobl sy'n byw â dementia
Ymgynghori â chymunedau lleol i ganfod sut y gallant ddatblygu cymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn Mandy Sprague – Gweithredu Cadarnhaol 50+ Cymunedau yn Gyntaf Rhwydwaith Rhieni	2015 / 2016	

Updated 23.11.15:

Cam gweithredu: Defnyddio amrywiaeth o fformatau cyfryngol ac ymgyrchoedd i hybu a chefnogi'r newidiadau mae eu hangen i wella llesiant pobl hŷn yn ein cymunedau

Beth a chan bwy: gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol

Pryd

Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma

Datblygu neu gefnogi ymgyrchoedd aml-gyfryngol cyfredol i godi ymwybyddiaeth o unigedd ac arwahanrwydd gan weithio gyda phartneriaid / preswylwyr / busnesau lleol

Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+
Hayley Lancaster – Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor
Andrew Highway Rheoli canol trefi
Campaign to End Loneliness / rhwydweithiau Heneiddio'n Dda

Mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran gydag ymgyrchoedd Gweithredu Cadarnhaol 50+ Dim Ond Rhif yw Oedran! a Dywedwch Na wrth Wahaniaethu ar sail Oedran

Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ 01443 864277
spragm@caerphilly.gov.uk
Richard Jones – ar ran Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Parhaus

Updated 23.11.15:

Cam gweithredu: Defnyddio amrywiaeth o fformatau cyfryngol ac ymgyrchoedd i hybu a chefnogi'r newidiadau mae eu hangen i wella llesiant pobl hŷn yn ein cymunedau

Datblygu ymgyrch aml-gyfryngol i helpu pobl i sicrhau'r incwm mwyaf posibl

Baner bws "Don't miss out find out"

- Twitter: Simon says "make the call"

Grŵp sicrhau'r incwm mwyaf Gweithredu Cadarnhaol 50+
Cyfathrebu Corfforaethol

Ionawr 15

**Mai /
Mehefin 15**

Gosodwyd baner aml dro ar fws gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor am 4 mis. Teithiodd hwn ledled y fwrdeistref. Cafwyd sylw yn y wasg

Datblygu ymgyrch aml-gyfryngol i sicrhau bod mwy o'r bobl sydd â hawl i Gredyd Pensiwn yn ei hawlio

- Baner Simon says "make the call" ar fws y Cyngor / Facebook / Twitter:

Grŵp sicrhau'r incwm mwyaf Gweithredu Cadarnhaol 50+
Cyfathrebu Corfforaethol
Fforwm 50+

Ionawr 16

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Parhau i ddatblygu gwefan y Cyngor ➤ Datblygu a chynyddu'r cynnwys yn y Cyfeiriadur Cymunedol ➤ Sicrhau bod modd chwilio yn y Cyfeiriadur o dudalen hafan y Cyngor Louise Saddler - Tîm E-lywodraethu TG Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ Alison Palmer - GAVO Steve Howells – Gwasanaethau Cymdeithasol	Ionawr – Hydref 15	Mae'r cynnwys wedi cael ei wella Mae'r categorïau wedi cael eu hadolygu a'u gwella ac mae'r iaith yn haws ei deall
Datblygu'r defnydd o'n hoffer atgofion RemPods gyda chartrefi preswyl a phartneriaid Tîm Comisiynu, Gwasanaethau Cymdeithasol Amgueddfa'r Tŷ Weindio a Llyfrgell Caerffili	Parhaus	Mae 6 RemPod yn cael eu cylchdroi o gwmpas cartrefi, gan gynnwys rhai yn y sector annibynnol, ac amgueddfa'r Tŷ Weindio. Mae defnyddio'r amgueddfa'n caniatáu i'r cyhoedd fanteisio ar yr adnodd rhagorol hwn
Datblygu'r defnydd o'n llyfrau atgofion 'Lluniau i'w rhannu' mewn llyfrgelloedd a chartrefi preswyl Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor	Parhaus	Erbyn hyn mae gan y rhan fwyaf o lyfrgelloedd cymunedol y Cyngor gopiâu i breswylwyr eu benthyg. Mae 4 set arall yn cael eu cylchdroi o gwmpas cartrefi preswyl y fwrdeistref bob chwarter

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Datblygu Cysylltwyr Cymunedol a'u defnyddio'n effeithiol ledled y fwrdeistref i gynorthwyo preswylwyr i adnabod eu problemau a'u datrysiadau eu hunain Ceri Martin – Tîm Gwybodaeth a Chyngor, Gwasanaethau Cymdeithasol 0808 100 2500	Mehefin 14 – Rhagfyr 15	Erbyn hyn mae 3 chysylltydd ar waith ac mae angen mwy o waith marchnata i sicrhau bod preswylwyr a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r gwasanaeth cymorth ymyrraeth gynnar hwn
Galluogi Fforwm 50+ Caerffili i ddod yn ffynhonnell gwybodaeth i breswylwyr 50 oed a hŷn ledled y fwrdeistref Datblygu'r wefan ac offer ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol Cadeirydd y Fforwm 50+ 50plus@gmail.com Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ 01443 864277 spragm@caerphilly.gov.uk	Ebrill 15 –	Mae'r Fforwm wedi ail-ddylunio ei wefan ac wedi ail-frandio www.caerphillyover50.co.uk Mae hefyd wedi datblygu tudalen Caerphilly Over 50 ar Facebook. Erbyn hyn mae wrthi'n rheolaidd yn postio gwybodaeth a chyngor sy'n cyrraedd cynulleidfa gynyddol. Gwyddys bod postiadau am ddiogelwch a diogled wedi cyrraedd 40,000 o bobl cyn pen 4 diwrnod ar ôl eu postio, sy'n profi gwerth cyfryngau cymdeithasol fel offeryn i'r Fforwm.

Updated 23.11.15:

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

Beth a chan bwy: gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol

Pryd

Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma

Galluogi Fforwm 50+ Caerffili i gynnal digwyddiadau cymdeithasol a rhannu gwybodaeth a sgiliau
 Cadeirydd y Fforwm 50+ 50plus@gmail.com
 Matt Lloyd Dewch Arlein Caerffili
 John Poyner Cysylltu Ysgolion a Chymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+
 01443 864277 spragm@caerphilly.gov.uk

Ebrill 15

Gorffennaf 15

Hydref 15

Mae'r Fforwm wedi cynnal 2 ddigwyddiad sgiliau digidol ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf / tîm Dewch Arlein Caerffili. Mae'r rhain wedi cael derbyniad da ac wedi cynyddu nifer aelodau'r Fforwm a'r defnydd o sesiynau Dydd Gwener Digidol.
 Bwriedir cynnal ei ddigwyddiad cymdeithasol cyntaf mewn diwrnodau pobl hŷn yn Ysgol Lewis Pengam

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Galluogi Fforwm 50+ Caerffili i sicrhau y clywir eu lleisiau Galluogi aelodau'r Fforwm a phreswylwyr i ddefnyddio dulliau digidol i sicrhau y clywir eu lleisiau Cadeirydd y Fforwm 50+ 50plus@gmail.com Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ 01443 864277 spragm@caerphilly.gov.uk	Hydref 15	Ym mis Gorffennaf ailddechreuodd y Fforwm ei fenter straeon digidol trwy gynorthwyo un o'r aelodau i wneud fideo awgrymiadau defnyddiol ar adnewyddu bathodyn Anabledd. Mae hwn wedi cael ei rannu trwy ei wefan ac ar draws Cymru trwy'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn ac amrywiaeth o rwydweithiau eraill. Erbyn hyn mae'n gweithio ar ffilm arall gyda thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor i helpu i sicrhau bod y bobl hynny sydd â hawl i Fathodyn Glas yn teimlo'n gyfforddus ynghylch gwneud cais ac yn dod â'r dystiolaeth briodol gyda nhw
Galluogi Fforwm 50+ Caerffili i gynyddu nifer ei aelodau er mwyn adlewyrchu pobl hŷn ar draws y fwrdeistref yn fwy priodol Cadeirydd y Fforwm 50+ 50plus@gmail.com Mandy Sprague - Gweithredu Cadarnhaol 50+ 01443 864277 spragm@caerphilly.gov.uk	Parhaus	Mae nifer yr aelodau wedi cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn 14 – 15

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

Beth a chan bwy: gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol

Pryd

Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma

Clybiau swyddi a hyfforddiant i gynorthwyo pobl 50 oed a hŷn i fynd yn ôl i'r gwaith

Mark Davies – Cymunedau yn Gyntaf
Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Parhaus

Mae SATC yn grymuso swyddogion cyswllt tenantiaid i gyfeirio preswylwyr at y gwasanaethau a'r cymorth mae eu hangen arnynt yn fwy effeithiol

Kelsey Watkins – Cyfathrebu CBSC, SATC

2014/15

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i ganiatáu i amrywiaeth fawr o bartneriaid roi gwybod i'r swyddogion cyswllt tenantiaid am y gwasanaethau maent yn eu darparu, gan gynnwys rhoi manylion cyswllt ac atgyfeirio hanfodol syml. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn ac wedi creu newid mewn agweddau at gyfeirio pobl.

Galluogi preswylwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch gofal preswyl trwy ei gwneud yn bosibl darllen adolygiadau annibynnol o gartrefi gofal preswyl ledled y fwrdeistref trwy'r "Canllaw Gofal Da – Meddwl amdanaf i"

Viv Daye Comisiynu, Gwasanaethau Cymdeithasol
Tanya Strange Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Gareth Jones – Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mawrth 15 /
Mawrth 16**

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng nghynllun peilot Gwent. Mae nifer yr adolygiadau'n cynyddu ac mae'r adborth gan y cyhoedd ar y cyfleuster hwn wedi bod yn gadarnhaol.

Mae angen hyrwyddo'r gwasanaeth mwy

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Adolygu sylwadau adborth oddi wrth yr Urdd a'u rhannu er mwyn helpu eraill i ddeall sut mae preswylwyr yn teimlo am gymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn Mandy Sprague Gweithredu Cadarnhaol 50+ Gweneira Raw Rees Rhaglen Heneiddio'n Dda	Tachwedd 2015	Cafwyd mwy na 500 o sylwadau ac erbyn hyn maent wedi cael eu cofnodi ar daenlen. Y cam nesaf yw deall themâu ac elfennau cyffredin a'u rhannu gyda phartneriaid
Rhaglen beilot: Archwiliad Iechyd Byw'n Well Byw'n Hirach; asesiad risg clefyd cardiofasgwlaidd i bobl 40-64 oed, yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gogledd Caerffili.	Tachwedd 15 -	Bydd y rhaglen yn gwahodd cleifion rhwng 40 a 64 oed, nad ydynt ar gofrestr clefydau cronig nac yn cymryd meddyginiaeth gysylltiedig ar hyn o bryd, i ddod i asesiad 45 munud gyda Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, mewn lleoliad cymunedol. Cynigir cymorth i wneud newidiadau i'r ffordd bersonol o fyw os oes angen.

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

<u>Beth a chan bwy:</u> gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol	Pryd	Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd: Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma
Mae'r adran Safonau Masnach yn cydweithio'n agos â phrosiect Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol i dynnu sylw at a chodi ymwybyddiaeth o sgamiau sy'n effeithio ar breswylwyr Caerffili.	Parhaus	Mae'r Tîm Cenedlaethol yn darparu rhestr o bobl sydd wedi dioddef sgamiau yn y fwrdeistref. Ymwelir â'r holl ddioddefwyr, rhoddir cyngor, cymorth a gwybodaeth ymarferol iddynt a, lle bo'n briodol, gwneir atgyfeiriadau priodol at asiantaethau perthnasol. Rydym wedi gallu dychwelyd symiau bach o arian i breswylwyr ac mewn un achos penodol wedi grymuso'r dioddefwr i sylweddoli ei fod yn cael ei sgamio ac felly arbed mwy na £1000 iddo.
Mae'r adran Safonau Masnach yn ystyried parthau dim galw diwahoddiad yn ffordd effeithiol o frwydro yn erbyn y cynnydd yn nifer y troseddau ac achosion o fasnachwyr twyllodrus wrth y drws yn y fwrdeistref.	Parhaus	Mae'r adran Safonau Masnach yn cydweithio'n agos â gwahanol bartneriaid fel Heddlu Gwent, cynlluniau gwarchod cymdogaethau, cymdeithasau preswylwyr a grwpiau cymunedol i godi ymwybyddiaeth a grymuso prynwyr i ddelio'n effeithio â phobl sy'n galw wrth y drws. Ar hyn o bryd mae gennym fwy na 30 o barthau

Updated 23.11.15:

Cam gweithredu: Galluogi preswylwyr i helpu eu hunain, eu perthnasau, eu ffrindiau a'u cymdogion i heneiddio'n dda

Beth a chan bwy: gan gynnwys manylion person cyswllt arweiniol

Pryd

**Cynnydd/ Canlyniadau/ Cynaliadwyedd:
Cyflawniadau, problemau ac effaith hyd yma**

Mae canolfan adnoddau White Rose yn cynnal sesiynau ffitrwydd wedi'u teilwra i bobl dros 50 oed, gan ymdrin ag adsefydlu cardiaidd a phroblemau gyda'r pengliniau ac anadlu

Parhaus

Mae mwy na 150 o bobl rhwng 50 a 90 oed yn dod i'r sesiynau. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn darparu cludiant mewn rhai amgylchiadau penodol

Cymunedau yn Gyntaf: Sean Rees 01443 878095 –
reessc@caerffili.gov.uk

DATGANIAD DULYN

AR DDINASOEDD A CHYMUNEDAU SY’N YSTYRIOL O BOBL HŶN YN EWROP 2013

Ar achlysur ‘Uwchgynhadledd yr Undeb Ewropeaidd ar Heneiddio’n Egnïol ac yn Iach’, a gynhaliwyd yn Nulyn, Iwerddon ar 13-14 Mehefin 2013, o dan Lywyddiaeth Iwerddon o’r Undeb Ewropeaidd, rydym ni, meiri ac uwch gynrychiolwyr gwleidyddol dinasoedd, cymunedau a rhanbarthau Ewrop, yn datgan yn unfrydol y canlynol:
Byddwn yn:

Hybu ‘Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy’n Ystyriol o Bobl Hŷn yn Ewrop 2013’ (Datganiad Dulyn 2013) mewn fforymau cenedlaethol a rhyngwladol priodol, gan feithrin y gydymffurfiaeth fwyaf posibl i’w werthoedd, ei egwyddorion a’i ragosodiadau, yn nhermau cynlluniau, rhaglenni ac adnoddau, er mwyn cyflawni’r ymrwymïadau yn y Datganiad hwn o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Cydweithredu â’r holl randdeiliaid rhanbarthol a lleol perthnasol i gefnogi cyflawni’r llawn yr addunedau yn Natganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy’n Ystyriol o Bobl Hŷn yn Ewrop 2013, gan gynnwys cydweithredu â Swyddfa Ranbarthol Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd a’i Rhwydwaith o Ddinasoedd sydd wedi ymrwymo i ddatblygu amgylcheddau sy’n ystyriol o bobl hŷn fel rhan o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y byd o Ddinasoedd a Chymunedau sy’n Ystyriol o Bobl Hŷn. Bydd hyn yn golygu dechrau cylch amlflwydd o asesiadau a gwelliannau parhaus i wneud eu hamgylcheddau’n fwy ystyriol o bobl hŷn.

Cyfathrebu trwy sianelau a rhwydweithiau lleol a rhanbarthol rhwng y gwahanol ddinasoedd a chymunedau er mwyn symbylu a chynorthwyo datblygiadau wrth hybu hawliau a chyfleoedd cyfartal i ddinasyddion hŷn ac er mwyn rhannu gwersi am ddatblygiadau mewn polisïau ac arferion sy’n gwella eu bywydau.

Adduned Ategol

Mae’r dinasoedd a chymunedau sy’n llofnodi isod hefyd yn addunedu, os yw o fewn cwmpas eu cyfrifoldebau ac yn ymarferol yn economaidd, i hyrwyddo’r camau gweithredu penodol canlynol, ac i’w cynnwys mewn offer cynllunio allweddol er mwyn cryfhau cynaliadwyedd hirdymor:

Hybu ymysg y cyhoedd **ymwybyddiaeth o bobl hŷn**, eu hawliau, eu hanghenion a’u potensial, a thynnu sylw at y cyfraniad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cadarnhaol maent yn ei wneud.

Sicrhau y caiff safbwyntiau a barn pobl hŷn eu gwerthfawrogi ac y gwrandewir arnynt, ac y caiff strwythurau a **phrosesau ymgysylltu sy’n canolbwyntio ar y dinesydd** eu datblygu er mwyn sicrhau y caiff pobl hŷn eu cynnwys yn ddigonol yn y broses o wneud penderfyniadau ac y rhoddir iddynt ran yn y gwaith o gynllunio a chreu arloesedd a newid.

Mabwysiadu mesurau i ddatblygu **mannau trefol a lleoedd cyhoeddus** sy’n gynhwysol, yn rhanadwy ac yn ddymunol i bawb, gan gynnwys pobl hŷn, a sicrhau bod adeiladau a ddefnyddir gan y cyhoedd yn hybu urddas, iechyd a llesiant defnyddwyr o bob oed, a’u bod yn addas i’r diben er mwyn diwallu anghenion newidiol cymdeithas sy’n heneiddio.

Updated 23.11.15:

Hybu a chynorthwyo â datblygu cymdogaethau a chymunedau i bob oed sy'n amrywiol, yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy, ac sy'n cynnwys **tai** i bobl hŷn sydd o'r ansawdd gorau. Dylid rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn mewn llety byw â chymorth, gofal preswyl a chartrefi nyrsio, lle mae eu hurddas a'u hymreolaeth yn cael eu peryglu mwy.

Gweithio i sefydlu **systemau trafnidiaeth gyhoeddus** sydd ar gael ac yn fforddiadwy i bawb, gan gynnwys pobl hŷn, ac sy'n 'ddi-dor' o fewn ac ar draws y gwahanol fathau o dtrafnidiaeth sy'n bodoli. Dylai'r systemau trafnidiaeth hefyd hybu a hwyluso'r defnydd o dtrafnidiaeth bersonol, megis beicio a gyrru, gan bobl hŷn.

Wrth i'r rhain ddod yn anos, dylid sicrhau bod dewisiadau amgen o ran trafnidiaeth bersonol, megis tacsis fforddiadwy a rhannu ceir, sy'n cysylltu â'r system gyhoeddus, ar gael.

Hybu **gallu pawb, gan gynnwys pobl hŷn, i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol** eu cymuned trwy sicrhau bod amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac wedi'u cynllunio i'w cynnwys ac i hybu eu hintegreiddio yn y gymuned. Dylai hyn gynnwys hybu gweithgareddau pontio'r cenedlaethau.

Hybu a chynorthwyo â datblygu **cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli** i bawb, gan gynnwys pobl hŷn, a chydabod eu cyfraniad cadarnhaol, a chynnwys darparu cyfleoedd **dysgu gydol oes** er mwyn grymuso pobl hŷn a hybu eu hymreolaeth.

Sicrhau bod ystod gynhwysfawr ac integredig o **wasanaethau cymorth cymunedol ac iechyd** sy'n fforddiadwy, yn hygyrch, yn ystyriol o bobl hŷn ac o ansawdd da, ar gael i bawb, gan gynnwys pobl hŷn. Dylai'r rhain gynnwys rhaglenni hybu iechyd ac atal afiechyd, gwasanaethau cymorth yn y gymuned, gofal sylfaenol, gofal eilaidd aciwt mewn ysbytai, gwasanaethau adsefydlu, gofal trydyddol arbenigol, gofal preswyl hirdymor, a gofal diwedd oes tosturiol.

Dulyn, 13 Mehefin 2013